Pwyllgor Diwylliant - CC-3-02(p.1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am -12.45pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Gelfyddydau'r Miwni, Pontypridd |

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

## Cyflwyniad i Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Adolygiad o'r Iaith Gymraeg

### Cyflwyniad

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (y Cyngor) yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli buddiannau mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yng Nghymru. Mae gan y Cyngor dros 800 o fudiadau mewn aelodaeth uniongyrchol, ac mae mewn cysylltiad a channoedd eraill trwy rwydweithau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn cynrychioli mudiadau Cymraeg a di-Gymraeg eu cyfrwng, ac yn pontio rhychwant o fudiadau amrywiol eu maint, diddordebau a gweithgareddau
2. Sefydlwyd y Cyngor yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf wrth i wirfoddolwyr ymateb i'r problemau oedd yn wynebu de ddwyrain Cymru yn ystod y dirwasgiad. Trwy draddodiad hir o gefnogi gweithredu gwirfoddol a chymunedol, datblygodd ac aeddfedodd y Cyngor i feithrin gwahanol agweddau ar weithredu gwirfoddol sy'n cynnwys gofal cymdeithasol, datblygiad cymunedol, yr amgylchedd, iechyd a dieithrwch cymdeithasol. Erbyn hyn, mae gan y Cyngor 85 o staff wedi eu lleoli mewn tair swyddfa yng Nghymru: mae 26% ohonynt yn rhugl yn y Gymraeg, 3 yn dysgu'r iaith ac 17 arall yn mynd i ddechrau dysgu yn ystod y deuddeg mis nesaf. Mae rhaglen hyfforddiant iaith ac arolwg sgiliau iaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
3. Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg yn 1998, gan ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'w aelodau a'r rhai sy'n defnyddio'i wasanaethau. Mae'r Cyngor yn gynyddol geisio gweithredu a hyrwyddo arfer da wrth ddefnyddio'r ddwy iaith yn ei waith, ei weithgareddau a'i gyhoeddiadau.
4. Mae'r Cyngor hefyd yn arbenigo mewn casglu a dadansoddi gwybodaeth am y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r ganolfan ymchwil yn cadw bas data hefo gwybodaeth am oddeutu 24,000 o fudiadau gwirfoddol sy'n weithredol yng Nghymru.

5. Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg. Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar faes gwaith y Cyngor a'r pynciau sy'n ymwneud a'r sector gwirfoddol.

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

6. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

- Lansiodd y Cyngor brosiect, Datblygu'r Iaith Gymraeg yn y sector gwirfoddol, ym 1995 gyda chyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd blaenoriaeth i ddarparu cymorth ymarferol i fudiadau gwirfoddol i lunio cynlluniau iaith ac hefyd recriwtio gwirfoddolwyr fedrai siarad Cymraeg.

- Darparodd y Cyngor gyhoeddiadau sydd yn cynnig cymorth ymarferol, er enghraifft 'O'n gwirfodd – canllawiau arfer da i ddatblygu'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol', sydd newydd gael ei adolygu a'i ail-gyhoeddi, a 'Dawnsio gyda'r ddraig - canllaw ar gyfer datganoli yng Nghymru ar gyfer mudiadau gwirfoddol'.

- Yn 1997, lansiwyd dogfen ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sef 'Gwirfoddoli dros yr Iaith,' er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol.

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, datblygodd y Cyngor rôl fel mudiad sy'n dosbarthu arian i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Un o feini prawf cynlluniau grant y Cyngor yw pa fodd y mae ymgeiswyr yn darparu ar gyfer anghenion cymdeithas a/neu ddefnyddwyr dwyieithog. Mae'r Cyngor yn disgwyl gweld tystiolaeth o hyn wrth fonitro'r ceisiadau llwyddiannus.

**Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru**

1. Mae gweithredu gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn ein cymdeithas fodern aml-wedd ac yn hyrwyddo'r broses ddemocrataidd. Yn ôl amcangyfrifion gorau y Cyngor, mae nifer y grwpiau gwirfoddol yng Nghymru tua 24,000, ac mae tua 90% o'r rheini yn fudiadau bychain sy'n gweithio i wella eu cymunedau lleol.
2. Mae dros 80%, 1.9 miliwn, o oedolion Cymru yn gwirfoddoli, gan gyfrannu bron i bedair awr yr wythnos o amser gwirfoddol. O'r rhain, mae 1.1 miliwn yn wirfoddolwyr ffurfiol, ac 1.7 miliwn yn rhai anffurfiol, sy'n helpu cymdogion a'u cymunedau y tu allan i fudiadau ffurfiol. Amcangyfrifir bod gwerth y gwaith gwirfoddol hwn yn gyfystyr a £3.4 biliwn i

Gymru. Mae’r sector yn cyflogi bron i 20,000 o weithwyr, tua hanner ohonynt amser llawn a hanner yn yn rhan-amser, cyfwerth a thros 11,000 o weithwyr sy’n cyfateb i rai amser llawn.

**Rôl y sector gwirfoddol yn diogelu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg.**

3. Bu’r sector gwirfoddol yng Nghymru ar flaen y gad mewn gwaith arloesol i ddiogelu dyfodol yr iaith Gymraeg. Bu mudiadau megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru a’i Heisteddfod hithau, Merched y Wawr, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin, y mentrau iaith lleol, papurau bro, Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, Cefn, ynghyd a llu o bwyllgorau eisteddfodau bro, capeli, neuaddau pentref a chymdeithasau diwylliannol yn gweithio i gynnal a hyrwyddo’r iaith dros y blynyddoedd. Mae’r mudiadau hyn wedi sicrhau bod cyfle i bobl gymdeithasu a gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg ar lawr gwlad.
4. ‘Roedd rhai elusennau a mudiadau gwirfoddol a fu gynt yn weithgar yn Saesneg yn unig neu’n bennaf yn dechrau cydnabod gwerth darpariaeth gwasanaeth dwyieithog hyd yn oed cyn dyfodiad Deddf Iaith 1993. Yn ddiweddarach, mae mudiadau fel Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, NSPCC Cymru – y Gymdeithas Genedlaethol er atal Creulondeb i Blant, Barnados Cymru a chymdeithasau tai wedi datblygu cynlluniau er mwyn hyrwyddo a datblygu’r Gymraeg o fewn y mudiad.
5. Nid yw ymroddiad o’r fath o anghenrhaid i’w weld gan y mudiadau eraill sydd yn gweithio yng Nghymru ond sydd a’u pencadlys mewn mannau eraill. Y mae gofyn bod y cyllidwyr a’r cyrff nad yw eu canolfannau yng Nghymru yn fwy ymwybodol o’r angen am ddwyieithrwydd, fel y gall gwasanaethau yng Nghymru neu ar gyfer Cymru gydnabod y ddwy iaith, a darparu ar gyfer pa un bynnag sydd orau gan bobl. Bwriedir trefnu derbyniad ar y cyd a’r Bwrdd Iaith yn y Cynulliad neu San Steffan gan dargedu cynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol sydd a’u helusennau’n gweithio yng Nghymru ond a’u pencadlys yn Lloegr er mwyn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gweithredu’n ddwyieithog yng Nghymru.
6. Mae’r fersiwn ddiweddaraf o ‘O’n gwirfodd’ (2002) yn nodi bod nifer o fanteision i fudiadau gwirfoddol o arddel dwyieithrwydd. Mae’n:

- Cynnig gwell gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg;
- Cydnabod natur ddwyieithog Cymru;
- Hwyluso mynediad i weithgareddau;
- Codi delwedd Gymreig y mudiad ac yn cydnabod perchnogaeth gan y Cymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd;
- Cryfhau apel y mudiad;
- Galluogi’r mudiad i ddarparu gwasanaethau effeithiol;
- Sicrhau fod y mudiad yn cydymffurfio a gofynion ieithyddol a diwylliannol deddfwriaethau eraill;

- Arddangos ewyllys da;
- Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

1. Nid yw'n ofynnol i fudiadau gwirfoddol lunio cynllun iaith o dan Ddeddf Iaith 1993. Fodd bynnag, dengys gwaith ymgynghori gan y Cyngor eu bod o'r farn y dylient hwythau hefyd ymdrechu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r iaith pan yn darparu gwasanaethau a chyflawni eu gweithgareddau yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod cyrff sy'n ariannu yn cydnabod yr ymrwymiad hwn, a bod lefelau costau craidd a phrosiectau yn adlewyrchu cost darparu gwasanaeth dwyieithog fel rhywbeth arferol.
2. Mae 35 o fudiadau gwirfoddol bellach wedi llunio cynllun iaith Gymraeg ac wedi sicrhau cymeradwyaeth gan y Bwrdd Iaith, ac mae 15 cynllun arall yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Dyma enghraifft o arfer da yn cael ei arddel gan y sector gwirfoddol er nad yw'n ofynnol iddynt lunio cynllun yn statudol.
3. Nid yw'r ffaith nad oes gan fudiadau gwirfoddol gynllun iaith sydd wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iaith yn golygu nad ydynt yn darparu gwasanaeth dwyieithog. Fel y dywedwyd eisoes, mae canran sylweddol (90%) yn fychan o ran maint. Mae diffyg adnoddau staff ac arian yn gallu bod yn rhwystr i fudiad rhag datblygu cynllun iaith, ond nid yw hynny o anghenrhaid yn eu rhwystro rhag gweithredu'n ddwyieithog. Dangosodd ymchwil y Cyngor yn 1995 fod 32 (47%) mudiad o'r 68 mudiad a holwyd fel rhan o'r arolwg o wasanaethau Cymraeg mudiadau gwirfoddol yn dilyn canllawiau iaith anysgrifenedig.

**Hybu dwyieithrwydd a chynnal consensws cenedlaethol ac ewyllys da**

4. Mae llawer mudiad sydd yn cynnal ei fusnes rheolaidd yn Saesneg yn ymdrechu i gynyddu ei ddefnydd o'r Gymraeg, ac mae llawer o ewyllys da yn bodoli o fewn y sector tuag at yr iaith. Tra'u bod yn awyddus i wneud rhagor eu hunain, y maent hefyd wedi nodi'r rhwystrau sydd yn eu cadw rhag datblygu i'r graddau y tybir sydd yn angenrheidiol. Mae ar y mudiadau yma angen:

- Mynediad at wasanaeth cyfieithu am bris y gellir ei fforddio;
- Staff a gwirfoddolwyr a all siarad Cymraeg;
- Mynediad at wybodaeth ynglyn ag arferion da;
- Gwybodaeth ynglyn a chyrsiau iaith Gymraeg;
- Mynediad at hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Yr adnoddau i gyfieithu deunydd a gyhoeddwyd eisoes.

19. Efallai y bydd ar rai o'r mudiadau croenddu neu leiafrifol nad yw eu hiaith gyntaf yn Saesneg nac yn Gymraeg, angen cymorth ychwanegol i gynyddu eu defnydd o'r

Gymraeg mewn cyd-destun aml-ieithog.

20. Er mwyn ychwanegu at allu'r sector i ddatblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, dylid cyfeirio cyllid i wella mynediad at y canlynol:

- Hyfforddiant i'r staff ac i wirfoddolwyr;
- Cyngor;
- Ymgynghoriaeth;
- Gwybodaeth;
- Cynhyrchu deunydd dwyieithog;
- Meddalwedd a deunydd cyfeiriol.

21. Yn ogystal a gwahodd mudiadau i ddangos sut y mae eu gweithgarwch yn adlewyrchu cymuned ddwyieithog, rhaid cyllido prosiectau penodol a fydd yn galluogi'r mudiad i gynnig rhagor o gyfleoedd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Dylai prosiectau o'r fath ymwneud ag agweddau penodol ar waith y mudiad – er enghraifft, gwirfoddoli neu ddarparu gwasanaeth – tra'n cymell newid mwy cyffredinol yn niwylliant y corff, trwy roi gwybod a dangos iddo sut i ymgorffori arferion da.
22. Ers blynyddoedd, bu rhai mudiadau sydd yn defnyddio'r Gymraeg gan fwyaf, yn cynyddu eu defnydd o'r Saesneg, er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach, a hynny heb danseilio dim ar eu diwylliant Cymraeg. Er enghraifft, bu'r Mudiadau Ysgolion Meithrin yn ymateb i'r newid agwedd yn ne-orllewin Cymru, trwy gynnal gweithgareddau dwyieithog, a oedd yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Dylid annog datblygiadau o'r fath trwy gefnogi ymdrechion mudiadau cyfrwng Cymraeg i drefnu digwyddiadau dwyieithog er mwyn ehangu eu cynulleidfa.
23. Y mae gofyn rhoi gwell cyfle i'r sector gwirfoddol ddatblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn lleol, yn ogystal a chenedlaethol. Oni fydd yr iaith yn cael ei chydnabod fel rhan annatod o ddatblygiad cymunedol, ni fydd yn parhau'n iaith fyw yng nghymunedau Cymru. Os yw menter dan arweiniad y gymuned i fod yn llwyddiannus, rhaid iddi gynnwys y gymuned gyfan. Golyga hynny y bydd yn rhaid ystyried y dewis o iaith wrth gynnal arolygon a chyfarfodydd cyhoeddus, anfon holiaduron a dosbarthu gwybodaeth. Mae hyn yn sicr yn bwysig ym maes adfywio cymunedol yn economiadd, yn gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Y mae angen cyllido prosiectau sydd yn sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cael eu dosbarthu'n eang er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu cymunedau.
24. Mae tystiolaeth lafar bod rhai mudiadau yn ei chael hi'n anodd darparu gwasanaeth gyflawn oherwydd problemau wrth recriwtio digon o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith. Gall hyn greu anawsterau i fudiadau sy'n darparu gwasanaeth bersonol er enghraifft cyngor, cynghori a gofal personol i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.
25. Mae'n bwysig chwalu'r ddelwedd nad yw siaradwyr Cymraeg yn barod i wirfoddoli. Mae gwirfoddoli yn rhan o fywyd cymunedau Cymraeg eu hiaith, lle'n draddodiadol mae pobl wedi arfer helpu ei gilydd. Mae gwaith Cynllun Estyn Llaw yng Ngheredigion a Gogledd Sir Gaerfyrddin yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn tueddu i wirfoddoli hefo

mudiadau a grwpiau traddodiadol Gymreig er enghraifft Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, capeli. Yn aml, nid yw'n cael ei weld fel 'gwirfoddoli ffurfiol': dyma enghraifft o wirfoddoli ar ei fwyaf anffurfiol.

**Ymchwil a datblygu**

26. Wrth baratoi ar gyfer y cyflwyniad hwn, daethpwyd i'r casgliad fod angen rhagor o waith ymchwil i ddangos yn union beth yw sefyllfa'r Gymraeg a darparu gwasanaethau dwyieithog ar lefel genedlaethol a lleol o fewn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae angen edrych ar y ddarpariaeth bresennol o fewn y sector gwirfoddol, ac mae angen neilltuo cyllid ar gyfer gwneud hyn.

**Casgliad**

27. I gloi, hoffem weld y Cynulliad, trwy'r adolygiad, yn

- comisiynu gwaith ymchwil i weld beth yw sefyllfa'r Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y sector gwirfoddol;
- sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y sector gwirfoddol er mwyn i fudiadau gwirfoddol a chymunedol allu cyflawni'r potensial sydd ganddynt i ddarparu gwasanaethau dwyieithog cyflawn yn newis iaith eu haelodau a'u defnyddwyr. Gall mudiadau gwirfoddol gyrraedd pobl ymhob sector o'r gymdeithas yng Nghymru. Bydd angen buddsoddi adnoddau ac arbenigedd - ar lefel leol a chenedlaethol - er mwyn i'r sector chwarae rhan gyflawn yng nghyflawni nôd sefydliedig y Cynulliad o 'greu Cymru ddwyieithog', a hynny o'r bôn i'r brîg.